

## CADWGAN (bu farw 1111), tywysog

**Enw:** Cadwgan  
**Dyddiad marw:** 1111  
**Plentyn:** Maredudd ap Cadwgan  
**Plentyn:** Morgan ap Cadwgan  
**Plentyn:** Einion ap Cadwgan  
**Plentyn:** Madog ap Cadwgan  
**Plentyn:** Gruffydd ap Cadwgan  
**Plentyn:** Henry ap Cadwgan  
**Plentyn:** Owain ap Cadwgan  
**Rhiant:** Bleddyn ap Cynfyn  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** tywysog  
**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig  
**Awdur:** John Edward Lloyd

Ail fab **Bleddyn ap Cynfyn** (a fu farw 1075). Clywir sôn amdano gyntaf yn 1088, pryd yr ymosododd ar Ddeheubarth, gyda'i frodyr Madog a Rhiryd, a gyrru **Rhys ap Tewdwr** yn alltud. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn dychwelodd **Rhys** gyda llynges o Iwerddon; cyfarfu â gwŷr Powys mewn brwydr y colodd Madog a Rhiryd eu bywydau ynddi ond o'r hon y gallodd Cadwgan ddiang. Rhoes marw **Rhys** yn 1093 gyfle i adnewyddu'r ymdrech ofer ar y De, eithr ymhen ychydig wythnosau fe welwyd mai'r Normaniaid a gâi elw o'r ymgyrch neilltuol hon, a hynny ar raddfa fawr. Tua'r adeg yna y bu i Gadwgan, er mwyn cryfhau ei atgyfnerthion, briodi merch ei gymydog Normanaidd, Picot de Sai, gwŷr a oedd yn arglwydd Clun a'r cylch yn ôl ' *Llyfr Domesday*. Cymerth ran bwysig pan gododd y Cymry yn oes William Rufus, gan orchfygu'r Normaniaid yn 1094 ym mrwydr Coed Yspwys (ni wyddys pa le y mae'r lle hwn), ac ymuno â **Gruffydd ap Cynan** i amddiffyn Môn a phan ffôdd i Iwerddon. Pan ddaeth gwell golwg ar bethau ac i'r ddau fedru dychwelyd o Iwerddon yn 1099 cafodd Cadwgan ei gyfran o Bowys gan yr iarll Robert o Amwythig ar yr amod ei fod yn talu gwrogaeth i'r gwr hwnnw; cafodd Geredigion hefyd. Gadawodd iddo'i hun gael ei berswadio i uno yng ngwrthryfel pobl Montgomery yn erbyn Harri I yn 1102, ond medrodd osgoi'r dinistr a oddiweddodd yr iarll yn 1103 a chadw ei diriogaeth.

Amharwyd ar flynyddoedd olaf ei oes gan draha a chwerylon teuluol llinach Powys. Ei fab **Owain** oedd un o'r troseddwy'r pennaf. Gwnaeth cymryd **Nest Fitzgerald** trwy drais waethygu cyflwr ei dad, a adawyd ar y cyntaf heb ddim ond y maesty a gawsai pan briododd ei wraig ond a gafodd Ceredigion yn ddiweddarach. Colodd Geredigion yn 1110 o achos ychwaneg o ddrwgweithredoedd a wnaethpwyd gan **Owain**; rhoddwyd hi i **Gilbert Fitzgerald** a daeth yn arglwyddiaeth Normanaidd, a Chadwgan yntau yn ei gael ei hun heb dir ac yn dibynnu ar bensiwn brenhinol. Unwaith eto fe ddaeth tro ar fyd, sef pan lofruddiwyd **Iorwerth** ei frawd gan nai, sef Madog ap Rhiryd; adferodd y brenin ddeheu Powys i Gadwgan. Yn yr un flwyddyn, fodd bynnag, dioddefodd Cadwgan dan law yr un gelyn annaturiol; pan oedd yn trefnu i adeiladu castell yn Trallwng Llywelyn (sef Welshpool), gosodwyd arno yn fradwrus a chafodd ei ladd heb iddo fedru gwrthwynebu fawr ddim.

Disgrifia'r 'Anglo-Saxon Chronicle' ef yn 1097 fel y mwyaf gwiw o arweinwyr y Cymry yn y flwyddyn honno; dug ei yrfa fel rheolwr beth clod iddo. Heblaw Henry a Gruffydd, y meibion a anwyd o'i wraig Normanaidd, gadawodd **Owain** (bu farw 1116), Madog, Einion (bu farw 1123), Morgan (bu farw 1128), a Maredudd (bu farw 1124).

### Awdur

**Syr John Edward Lloyd**, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 398-421

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Cadwgan ap Bleddyn**

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q2614469**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiolch i  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government